

Cymhlethdodau a chostau i'r GIG oherwydd all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol: adolygiad cyflym

Ebrill 2025

Clare England, Anthonia Needham-Taylor, Nathan Bromham, Juliet Hounsome, Elizabeth Gillen, Jacob Rees Davies, Rhiannon Tudor Edwards, Adrian Edwards, Alison Cooper, Elizabeth Doe, Ruth Lewis

Cefndir

'All-dwristiaeth feddygol' yw pan fydd pobl yn ceisio triniaeth feddygol dramor. Yn aml mae hyn yn cael ei ysgogi gan ffactorau megis cost ac amseroedd aros byrrach.

Fodd bynnag, mae pryderon y gallai pobl sy'n teithio dramor i gael llawdriniaeth fod mewn perygl o gymhlethdodau pan fyddan nhw'n dychwelyd adref.



Y nod

Ateb y cwestiynau canlynol:

- 1 Beth yw **cymhlethdodau tymor hir a thymor byr** all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol sy'n cael eu trin yn y DU gan y GIG?
- 2 Beth yw'r **costau i'r GIG** o drin **cymhlethdodau a gofal** dilynol oherwydd all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol?
- 3 Pa **fanteision sydd i'r GIG** yn sgil all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol?

Sylfaen y Dystiolaeth


Cyhoeddwyd 37 o astudiaethau rhwng 2007 a 2024.

Roedd sylfaen y dystiolaeth yn cynnwys adroddiadau am **655 o gleifion a gafodd driniaeth gan y GIG** rhwng 2006 a 2024

- 35 Roedd 35 o adroddiadau achos yn manylu ar gleifion a gafodd driniaeth gan y GIG am gymhlethdodau.
- 2 Roedd 2 arolwg o lawfeddygon plastig yn y DU.
- Roedd 19 yn gysylltiedig â llawdriniaeth colli pwysau (**385 o gleifion wedi'u cofnodi**)
 - Roedd 17 yn gysylltiedig â llawdriniaeth gosmetig (**265 o gleifion wedi'u cofnodi**)
 - Roedd 1 yn gysylltiedig â llawdriniaeth ar y llygaid (**5 claf wedi'u cofnodi**)

Roedd 14 astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad o'r **costau i'r GIG** ar gyfer trin cymhlethdodau.

Ni **chanfuwyd unrhyw astudiaethau yn amlygu manteision all-dwristiaeth feddygol i'r GIG.**



90% o'r cleifion ar draws yr holl astudiaethau yn fenywaidd.

Ystod oedrannau 14 - 69.

Oedran ar gyfartaledd 38 oed.

Y driniaeth fwyaf cyffredin a gafwyd gan fenywod oedd llawdriniaeth gosmetig.

Demograffeg

Prif Ganfyddiadau

Y math mwyaf cyffredin o lawdriniaeth **colli pwysau** oedd **gastrectomi llawes** (Llawes Gastrig)



Y symptomau mwyaf cyffredin oedd:

- poen yn yr abdomen
- chwydu
- methu llyncu
- diffyg maeth

Gollyngiad gastrig oedd y diagnosis mwyaf cyffredin.

I dros draean o gleifion a oedd yn ymddangos gyda chymhlethdodau, roedd angen i'w llawdriniaethau gael eu dadwneud neu eu diwygio.



Y **driniaeth gosmetig unigol** fwyaf cyffredin a gafodd ei wneud dramor oedd **abdominoplasti** ('Tummy Tuck')

Y cymhlethdodau mwyaf cyffredin oedd:

- haint
- clwyf llawfeddygol yn ailagor

Y driniaeth fwyaf cyffredin oedd gwrthfotigau.

Roedd angen ymchwiliad o dan anesthetig lleol neu gyffredinol ar ychydig dros hanner y cleifion a oedd yn dangos cymhlethdodau.

Mae tystiolaeth bod cleifion yn cael **sawl triniaeth ar yr un pryd**.



Roedd costau i'r GIG yn amrywio o **£1,058 i £19,549 y claf** yn ôl prisiau 2024.

Adroddwyd bod y costau uchaf yn gysylltiedig â:

- arosiadau hirach yn yr ysbyty
- triniaethau llawfeddygol

Roedd sicrwydd y dystiolaeth ar gyfer costau **yn isel iawn** a chredwyd bod yr **effaith economaidd** ar y GIG o bosibl yn amrywiol iawn.

Goblygiadau Ymchwil

- Nid ydym yn gwybod o hyd faint o bobl sy'n byw yn y DU sy'n mynd dramor i gael llawdriniaeth ddewisol na faint o bobl sy'n cael cymhlethdodau wedyn. Heb y data hwn ni allwn ddeall y risg yn llawn.
- Mae **angen dull systematig o gasglu gwybodaeth** am effaith trin cymhlethdodau sy'n deillio o dwristiaeth feddygol ar GIG y DU
- Mae graddfa'r broblem yng Nghymru bron yn **hollol anhysbys**.
- Ni chynhaliwyd unrhyw astudiaethau mewn gofal sylfaenol, felly **nid ydyn ni'n gwybod** effaith all-dwristiaeth feddygol **ar wasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau cymunedol**.
- Nid oes tystiolaeth **yn cymharu canlyniadau iechyd tymor byr neu hirdymor pobl sy'n teithio dramor** ar gyfer llawdriniaeth ddewisol **o'i gymharu â'r rhai sy'n cael eu trin yn y DU** (naill ai yn y GIG neu'n breifat). Byddai cymhariaeth uniongyrchol yn caniatáu amcangyfrif gwell o gostau a buddion i'r GIG.



Mae'r adolygiad cyflym llawn, **gan gynnwys ystyriaethau economaidd**, ar gael yma:

<https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2025.04.02.25325086v1.full>